# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 26 Medi 2024 am 7 o'r gloch**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Huw V Jones
Y Cynghorydd Walter Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.
**Ymddiheuriadau** – Y Cyng. Gwilym Owen a Linda Brown.

**2. Meleri Davies a Donna Watts, Partneriaeth Ogwen**
Cafwyd diweddariad gan Meleri a Donna ar holl brosiectau Partneriaeth Ogwen, a chafwyd sgwrs ynglŷn ag ail strwythuro'r sefydliad yn dilyn ymddiswyddiad Meleri. Diolchwyd i Meleri Davies am ei holl waith dros y blynyddoedd, ac yn dymuno yn dda iddi hi i'r dyfodol. Llongyfarchwyd Donna ar ei rôl newydd fel Prif Weithredwr, ac yn dymuno'n dda i'r holl staff yn dilyn yr ail-strwythuro.

**3. Datgan Diddordeb**
**10.1 Gohebiaeth** Ysgol Llanllechid - Rhodd tuag at gostau Eisteddfod yr Urdd - y Cyngr. Walter Williams, Paul Rowlinson, Huw V Jones, Bleddyn Williams a Catrin Wager.

**4. Materion Brys**
**Lon Newydd - Dŵr yn llifo -** Adroddwyd fod y Clerc wedi adrodd am y dŵr i Gyngor Gwynedd ers dechrau mis Medi, ond nid oes ddim byd wedi cael ei wneud hyd yn hyn. Nodwyd fod y Cyng. Paul Rowlinson wedi adrodd am y broblem hefyd.

**5. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2024.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda'r tirfeddiannwr a chytunwyd y byddent yn creu les newydd – ar y gweill.

**6.2 Glanhau'r Gofeb** - Derbyniwyd dyfynbris am y gwaith glanhau gan gwmni o Bwllheli, a derbyniwyd y dyfynbris hwn gan y Cyngor drwy e-bost. Adroddwyd y Clerc ei fod yn disgwyl am ddyddiad cychwyn i'r gwaith glanhau - ar y gweill.
**6.3 Diffyg Plismona** – Y Clerc i wahodd Ian Roberts i gyfarfod mis Hydref.
**6.4 Cae Chwarae Pantdreiniog -** Adroddwyd fod y Clerc wedi cael G L Jones draw i edrych ar y safle, ac wedi derbyn pris am lawr 'wet pour' i roi yn lle'r gwair ffug. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd a ROSPA am gyngor ynglŷn â lloriau addas ar gyfer y safle.
**6.5 Llochesi Bws** – Nodwyd fod y Swyddog Cynnal wedi glanhau rhan fwyaf o'r cysgodfannau – ar y gweill.
**6.6 Ysgol Dyffryn Ogwen – Cyfarfod Gwobrwyo Blynyddol Ysgol Dyffryn Ogwen 2024 –** Llongyfarchwyd Connor Dillon ac Osian Sherlock ar ennill Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda.

**7. Cytundeb Lefel Gwasanaeth CCTV**
Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd pam fod camerâu Cae Star wedi'i gynnwys ar y cytundeb, yna i ail gyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor.

**8. Mabwysiadwy dogfennau**
Penderfynwyd mabwysiadu'r dogfennau isod:

- Adroddiad Blynyddol 2023-24
- Cynllun Hyfforddiant

Y Cyng. Catrin Wager i ddanfon sylwadau am y Cynllun Bioamrywiaeth at y Clerc, a'r Clerc i ail gyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd nad yw'r gofrestr tir wedi'i diweddaru eto yn dilyn gwerthiant y tir. Nodwyd rhwystredigaeth y cyngor, a bod y Cyngor yn awyddus iawn i ddatrys y problemau parcio yng Ngherlan. Y Clerc i gysylltu gyda'r aelod seneddol i ofyn iddynt gysylltu â'r gofrestra tir ar ein rhan ni.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2024'
**10.1 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn –** Y Clerc i edrych ar y safle eto ac i feddwl am opsiynau amgen.
**10.2 Ysgol Llanllechid - Rhodd tuag at gostau Eisteddfod yr Urdd -** Penderfynwyd rhoi rhodd o £500 at yr achos.
**10.3 Cyng. Bleddyn Williams - Ymgyrch i ddatganoli arian/elw stad y goron i'r Senedd a pobl yng Nghymru -** Penderfynwyd cefnogi'r ymgyrch hwn, y Clerc i ddatgan cefnogaeth.
**10.4 Cyng. Michael Williams - Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc -** Nodwyd fod y ffordd hon mewn cyflwr gwarthus. Adroddwyd fod y Cyng. Paul Rowlinson wedi derbyn ymateb ar y mater gan Gyngor Gwynedd, a chadarnhawyd fod y lleoliad ddim wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol yma … fel rhan o'n gwaith cyllidebau refeniw arferol. Penderfynwyd bydd y Clerc yn cysylltu gyda Siân Gwenllian AS i bwyso ar y mater.
**10.5 Chris Roberts, Cynllunio Llys Dafydd -** Adroddwyd bydd cyfarfod ar y safle ar ddydd Mawrth, 1af o Hydref am 3 o'r gloch.
**10.6 Cyng. Dafydd Owen, Cyngor Cymuned Llandygai - Pont y Pandy -** Trafodwyd cynnwys yr e-bost, a phenderfynwyd cefnogi'r cais am archwiliad diogelwch ar y ffordd hon.

**11. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C23/0207/13/CR**
Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda — Addasiadau mewnol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C24/0138/13/LL**
1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan — Codi annedd deuluol
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0390/13/AC**
Spar Stores Stryd Fawr, Bethesda — Diwygiad i amod 2 o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu man manwerthu a chanolfan dreftadaeth i ailddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr, er galluogi newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltaig, ac ychwanegu mwy o reiliau diogelwch.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0454/13/DT**
35 Ffordd Llanllechid, Rachub, — Estyniad unllawr cefn arfaethedig
**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau

**C24/0445/13/TC**
Dŵr Cymru, Gwaith Trin Carffosiaeth, Ffordd Bangor, — Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer datblygiad arfaethedig o fewn ardal weithredol GTDG Bethesda yn cynnwys offer uwchben y ddaear a seilwaith cysylltiedig (gan gynnwys set atgyfnerthu dŵr golchi; Trawsnewidydd; Gorsaf bwmpio dychwelyd hylif; gorsaf bwmpio x2; a thanc dal slwtsh); cynllun ffordd newydd gyda llwybrau cerdded; a seilwaith o dan y ddaear (gan gynnwys tyllau archwilio; siambrau x2; piblinellau; dwythellau; prif gyflenwad ymgodol gorsaf bwmpio a ffynhonnau gwlyb gyda phympiau; prif gyflenwad dŵr; a chyflenwad trydan)
**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau

**C24/0444/13/LL**
Dŵr Cymru, Gwaith Trin Carffosiaeth Ffordd Bangor. — Cynnig i osod ciosg panel dosbarthu a chiosg canolfan rheoli moduron
**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau

**C24/0452/21/CC**
Caravan Park & Country Club, Ogwen Bank, — Gwaith i goed sy’n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad:** ar y gweill.

| | |
|---|---|
| **C24/0540/13/TC** | Wenmar, Bron Arfon Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub<br>Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer parhau i ddefnyddio tir ar gyfer storio deunyddiau adeiladu peiriannau a cherbydau; paratoi elfennau adeiledig ac ardal gweithdy<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C24/0741/13/DA** | Tŷ Nain, 28 Erw Lâs, Bethesda<br>Diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllunio C22/0454/13/DT drwy leihau maint yr estyniad.<br>**Penderfyniad:** |
| **C24/0731/13/LL** | Blodau Hyfryd, 7 Rhes Victoria, Bethesda<br>Newid defnydd siop bresennol yn fflat un ystafell wely.<br>**Penderfyniad:** |

**12. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog Awst | £396.20 |
| CThEM | TWE Awst | £99.20 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £209.80 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £43.21 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £41.10 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £252.54 |
| John Wyn Jones | Cyflog Medi | £396.20 |
| CThEM | TWE Medi | £99.20 |
| Partneriaeth Ogwen | Pad diffibriliwr Gorffwysfan | £48.00 |
| Cyngor Gwynedd | Cyfraniad Toiledau Cyhoeddus | £4000.00 |

**13. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Ysgoloriaeth Ysgol Dyffryn Ogwen
- Dymuniadau gorau i Meleri Davies, Partneriaeth Ogwen
- Cysgodfan Bws arfaethedig Maes Bleddyn
- Cyflwr ffordd Hen Barc
- Elw Stad y Goron